# Bwletin y Farchnad HCC

Awst 2022

**Yn ddiweddar mae BCMS wedi rhyddhau ffigyrau cofrestru lloi ar gyfer Cymru sy'n dangos y tueddiadau eidion a llaeth yn ystod hanner cyntaf eleni. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn ddyfnach ar y ffigyrau hyn sy'n awgrymu y gallai'r cyflenwad fod yn dynn os yw cofrestriadau lloi yn parhau i fod yn isel ar gyfer hanner olaf 2022.**

**Glesni Phillips – Dadansoddwr Data**



Yn ystod chwe mis cyntaf 2022 (H1), gwelwyd gostyngiad o 0.8% yn nifer y cofrestriadau genedigaethau lloi cyffredinol yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn yn ôl. Yn ôl data diweddar, cofrestrodd Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) 228,100 o loi yn ystod y cyfnod, 1,800 yn llai o flwyddyn i flwyddyn. O'i gymharu â'r un cyfnod o 6 mis yn 2020, mae'r ffigwr presennol 1% yn uwch.

Gostyngodd nifer y lloi a gofrestrwyd a fyddai ar gael ar gyfer **cynhyrchu cig eidion** (lloi llaeth gwrywaidd a lloi eidion o'r ddau ryw) 1% ar y flwyddyn i 183,000 pen - er y byddai rhai o'r menywod eidion yn cael eu cadw fel rhai o'r buchod magu cyfnewid yn y fuches. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod llai o gofrestriadau ar gyfer lloi llaeth gwrywaidd, a gwympodd 13% (3,000 pen) ar y flwyddyn. Mae'r symudiad hwn yn dilyn y duedd mwy hirdymor mewn niferoedd o wartheg llaeth gwrywaidd. O'i gymharu â'r un cyfnod o 6 mis yn 2020, roedd nifer yr anifeiliaid a fyddai o bosib ar gael i gynhyrchu eidion yn y dyfodol hefyd 1% yn llai. Mae'r ffigyrau ar gyfer H1 o 2022 felly'n awgrymu y gallai'r cyflenwad o anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu eidion fod yn dynn yn y dyfodol - ond gall cofrestriadau lloi gynyddu yn ystod hanner olaf y flwyddyn.


O edrych ar gofrestriadau lloi **eidion** yn unig; roedd lloi gwrywaidd a benywaidd gyda'i gilydd wedi cynyddu 0.4% ar y flwyddyn i 160,500 pen, ond i lawr 0.7% o'i gymharu â 2020. Roedd cynnydd nodedig yn nifer y cofrestriadau lloi eidion yng Nghymru yn ystod mis Mai - gyda'r niferoedd yn uwch na 2% ar y flwyddyn, mae hyn yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn nifer y cynhyrchwyr yng Nghymru â bloc bwrw lloi yn y Gwanwyn mwy diffiniedig eleni.

**Cofrestru lloi yng Nghymru (H1 o 2022):**

- Lloi eidion benywaidd -0.3% flwyddyn ar flwyddyn
- Lloi eidion gwrywaidd +1.1% flwyddyn ar flwyddyn
- Llaeth benywaidd +1.8% flwyddyn ar flwyddyn
- Llaeth gwrywaidd -12.5% flwyddyn ar flwyddyn

Lloi a gofrestrwyd a fyddai ar gael ar gyfer **cynhyrchu cig eidion** (lloi llaeth gwrywaidd a lloi eidion o'r ddau ryw)

**-1%** i **183,000 pen**




Ar yr ochr **laeth** bu cynnydd o 1.8% mewn cofrestriadau lloi llaeth benywaidd yn ystod chwe mis cyntaf 2022 yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn yn ôl, a allai gyfrannu at rywfaint o sefydlogi yn y fuches laeth. Cofnododd nifer y lloi llaeth ostyngiad nodedig o 12.5% ar y flwyddyn, gyda'r niferoedd yn ystod H1 o 2022 hefyd 4% yn is na 2020. Mae'r newid hwn yn nifer y lloi llaeth gwrywaidd a benywaidd sy'n cael eu cofrestru yn adlewyrchu defnydd cynyddol o semen rhywiog a chig eidion o fewn y sector llaeth.

**Lefel y DU;**

Mewn modd tebyg i Gymru; gostyngodd cyfanswm y cofrestriadau lloi ym Mhrydain Fawr (DU) yn ystod H1 o 2022 0.9% (neu 13,800 pen) ar y flwyddyn i sefyll ar 1.6 miliwn pen. Lloi llaeth gwrywaidd oedd gyrrwr y dirywiad hwn gyda chofrestriadau i lawr 17% ar y flwyddyn, tra bod lloi eidion gwrywaidd a benywaidd wedi cofnodi cynnydd bach ar y flwyddyn (llai nag 1% yr un). Roedd nifer y lloi a allai fod ar gael i gynhyrchu eidion yn y dyfodol i lawr 0.9% - sy'n awgrymu y gallai'r cyflenwad fod yn dynn os yw cofrestriadau'n parhau i fod yn isel yn ystod aill hanner y flwyddyn.

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 13 Awst

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **244.7c/kg**. Roedd hyn:

- - 0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 12.9c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 42.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 202.5c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **430.7c/kg**. Roedd hyn:


- - 2.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 25.0c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn sefyll ar 428.9c/kg (-2.2c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 423.0c/kg (-2.6c), a gwartheg difa ar 343.8c/kg (-3.0c).

### Trwybwn - Gorffennaf 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 218,600 pen – tebyg y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 161,400 pen - tebyg ar y flwyddyn
  - ➢ *bustych -4%, heffrod +2%, a theirw ifanc +6%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 344.2kg (-3.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 51,900 pen - cynnydd o 1% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 13 Awst

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **240.4c/kg**. Roedd hyn:

- - 8.9c ar yr wythnos flaenorol,
- +7.9c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 43.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 196.9c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£69.00/pen**. Roedd hyn:


- - £3.90 ar yr wythnos flaenorol,
- 20c o dan lefelau cynharach y flwyddyn.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 545.4c/kg (+19.8c ar yr wythnos).

### Trwybwn - Gorffennaf 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 989,100 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau ŵyn = 19.6kg (tebyg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 100,400 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 6 Awst

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **199.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 34.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 38c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 161.8c/kg).

### Trwybwn - Gorffennaf 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 902,400 pen – gostyngiad o 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 883,400 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.0kg (+1.7kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 19,000 pen – i lawr 12% ar y flwyddyn

